Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

TO/1225

# SWYDDOG HYFFORDDI

## Pecyn Ymgeisio

I GYRCHU'R PECYN YMA YN SAESNEG, CLICIWCH YMA

Cwmni cyfyngedig drwy warrant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260.
Yn gweithio mewn partneriaeth â
Llywodraeth Cymru Welsh Government

# AMDANOM NI

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yw'r gyfundrefn genedlaethol ar gyfer Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae plant yn chwarae a chymunedau'n ffynnu.

Ein cenhadaeth yw bod yn llais Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yng Nghymru, gan gefnogi hawl plant i chwarae a gofal plant o ansawdd sydd yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn diwallu anghenion plant, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Am wybodaeth bellach ar ein gwerthoedd a'n nodau strategol i Glybiau All-Ysgol, cliciwch yma.

Mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn rhedeg naill ochr i'r diwrnod ysgol ac yn ystod y gwyliau, gan alluogi rhieni/gofalwyr i ddychwelyd i'w gwaith neu hyfforddiant a phlant i fwynhau darpariaeth o ansawdd sy'n canolbwyntio ar chwarae ac wedi ei staffio gan Weithwyr Chwarae cymwysedig. Mae dros 1500 o Glybiau Brecwast, Ôl-Ysgol a Gwyliau Cymraeg, Saesneg a dwyieithog ar hyd a lled Cymru.

Fel elusen gofrestredig, Bwrdd Ymddiriedolwyr gwirfoddol neu Gyfarwyddwyr sy'n gwneud penderfyniadau polisi Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Etholir y bobl hyn yn flynyddol a dônt o Glybiau All-Ysgol ar hyd a lled Cymru.

**Rydym yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant i fusnesau gofal plant:**

**Cefnogi Busnesau Gofal Plant**
Gallwn helpu unigolion, ysgolion, darparwyr gofal plant presennol, aelodau pwyllgor ac eraill i sefydlu busnesau gofal plant, a chefnogi'r rhai sy'n bodoli eisoes.

**Hyfforddiant**
Rydym wedi bod yn hyfforddi'r sector Gofal Plant All-ysgol ers dros 20 mlynedd i ddatblygu gweithlu proffesiynol sy'n cofleidio ac yn cefnogi chwarae y mae plant yn ei hunan-gyfarwyddo.

Rydym yn darparu cymwysterau Gwaith Chwarae (Mae NCFE, y corff dyfarnu cymwysterau, yn ein graddio'n 'rhagorol'. Hefyd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac ystod o weithdai gweithgaredd yn seiliedig ar chwarae. Gweler ein digwyddiadau a'n Cyfarwyddiadur hyfforddi diweddaraf yma.

# MANTEISION GWEITHIO GYDA NI

## Profwch y gwahaniaeth a wna Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Effaith sydd o Bwys:

Profwch wir lawenydd cael barhaol ar fywydau ifanc.
Yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs byddwch yn rhan o dîm sy'n creu Cymru lle gall plant chwarae a chymunedau ffynnu.

Eich Amser i Ymlacio

Mwynhewch egwyl cwbl haeddiannol gyda'n pecyn gwyliau hawl. Rydym yn credu mewn cydbwyso bywyd a gwaith, ac yn sicrhau eich bod yn cael amser i ail-gyfnerthu a mwynhau bywyd y tu hwnt i'r gweithle.

Hyblygrwydd sy'n Hwylus:

Rydym yn deall y gofynion sydd arnom mewn bywyd. Cewch gofleidio gyrfa llawn boddhad gan hefyd fwynhau'r hyblygrwydd sydd ei angen arnoch drwy ein cynlluniau Amser o'r Gwaith â Thâl a Gweithio Ystwyth. Mae eich llesiant o bwys, ac rydym ni yma i'ch cefnogi ar eich taith.

Rhyddhewch eich Potensial: :

Agorwch y drws i fyd o dyfiant drwy ein hyfforddiant cynhwysfawr a'n rhaglenni datblygu.
Yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, buddsoddwn yn eich sgiliau, gan sicrhau eich bod yn cyrraedd eich potensial i'r eithaf.






# MANTEISION GWEITHIO GYDA NI

**Er mwyn eich llesiant**

Trefniadau gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn ogystal â mynediad at ein Hyb Lles a Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl, cyfarfodydd goruchwylio misol gyda'ch rheolwr llinell ac arfarniadau blynyddol.

**Er mwyn eich iechyd**

28 diwrnod o wyliau pro rata ynghyd â gwyliau cyhoeddus (pro-rata ar gyfer gweithio rhan-amser) ynghyd â manteision ychwanegol yn seiliedig ar hyd y gwasanaeth a ddaw ar gael am 3 blynedd o wasanaeth a 5 mlynedd o wasanaeth sy'n cynnwys diwrnodau gwyliau blynyddol ychwanegol a mynediad i Perkbox. Rydym hefyd yn darparu yswiriant iechyd corfforaethol trwy Simply Health lle, ar ôl cyfnod prawf o chwe mis, mae gweithwyr sydd wedi'u cadarnhau yn eu swydd yn cael Yswiriant Simply Health – yn rhad ac am ddim – a'r opsiwn i dalu am yswiriant ychwanegol ar gyfer priod / partner a phlant.

**Er mwyn eich diogeledd ariannol**

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gweithredu cynllun pensiwn rhanddeiliaid ar y cyd ag Aviva. Gall cyflogeion, yn amodol ar rai meini prawf cymhwysedd, ymuno â'r cynllun pensiwn. Bydd cyflogeion cymwys yn cael cyfraniad o 6% tuag at eu pensiwn gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, cyhyd â bod y cyflogai'n cyfrannu 2% o'i gyflog crynswth sylfaenol i'r cynllun. Hefyd tâl mamolaeth estynedig, tâl tadolaeth a thâl mabwysiad.

Telir lwfans milltiredd tra ar fusnes Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Yn ogystal telir treuliau parod, cyfyngedig, am deithio a chynhaliaeth tra byddir ar fusnes Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Ôl-delir treuliau yn fisol.



# SUT BETH YW GW ITHIO I CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUBS?



Rwy'n cael bod y cytundeb gweithio ystwyth ynghyd â'r system TOIL yn cyd-fynd yn dda â'm hymrwymiadau ac yn rhoi cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Mae fy rôl yn rhoi boddhad i mi ac rwy'n mwynhau bod yn rhan o dîm sy'n cyd-dynnu.

Rydw i wir yn mwynhau gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, mae'r tîm i gyd yn gyfeillgar ac yn wych i weithio gyda nhw. Rwy'n mwynhau fy rôl fel Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant yn cefnogi llywodraethu, cynaliadwyedd ac ansawdd mewn clybiau Gofal Plant y tu alan i oriau ysgol, gan fod fy ngwaith yn amrywiol iawn ac nid oes dau ddiwrnod yr un fath. Rwy'n cael pleser gwirioneddol o gefnogi'r sector, yn ogystal â gwybod fy mod yn gwneud gwahaniaeth i roi gofal plant cynaliadwy o safon a phrofiadau chwarae mewn Clybiau Gofal Plant All-Ysgol.





Fel aelod newydd o'r tîm rydw i wedi cael croeso gyda breichiau agored ac yn teimlo fel pe bai'r rhan o'r tîm wedi bod yma am gyfnod byr yn unig. Mae'n lle hyfryd, prysur i weithio ac mae pawb wedi bod yn gyfeillgar a chefnogol iawn.

# RÔL Y SWYDDOG HYFFORDDI DAN HYFFORDDIANT

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dymunopenodi Swyddog Hyfforddi llawn-amser (37 awr), i'w leoli yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, â chytundeb gweithio ystwyth yn ei le. (wedi'i hollti 50:50 rhwng gweithio gartref ac yn y swyddfa)

Mae'r cyflog o £32,076 (£33,366 yn ôl y gyfradd ar dderbyn cadarnhad mewn swydd) wedi ei seilio ar wythnos 37 awr, yn daladwy'n fisol drwy drosglwyddiad credyd. Mae gweithio'n hyblyg yn ofynnol i'r swydd hon, a gallai gynnwys hyd at 2 noson yr wythnos, ac weithiau hyfforddiant dros y penwythnos neu nosweithiau oddi cartref o bryd i'w gilydd. Mae 28 diwrnod o wyliau yn ôl y gyfradd ynghyd â gwyliau cyhoeddus. Mae'r blwyddyn wyliau yn dechrau 1 Medi ac yn gorffen 31 Awst.

Mae'r Tîm Hyfforddi'n cael ei arwain gan y Rheolwr Hyfforddi Cenedlaethol; bydd yr ymgeisydd yn atebol i'r Swyddog Hyfforddi Arweiniol a'r Asesydd Anasawdd Mewnol (AAM) Arweiniol.  Mae prif gyfrifoldebau'r Swyddog Hyfforddi wedi'u rhestru yn y meini prawf gwerthuso. Bydd arnoch angen dealltwriaeth o becynnau Windows a Microsoft, gan gynnwys Word, Excel, Outlook a Teams, a bod yn barod i ddysgu am – a defnyddio – pecynnau meddalwedd newydd a systemau monitro ar-lein.



# RÔL Y SWYDDOG HYFFORDDI DAN HYFFORDDIANT

Prif ffocws y rôl yw cefnogi'r gyfundrefn i ddiwallu ein nodau strategol drwy gyflawni ac asesu hyfforddiant o ansawdd uchel er mwyn cefnogi'r Sector Gofal Plant All-Ysgol a'r Gweithlu Gwaith Chwarae.

Dylai fod gan yr ymgeisydd llwyddiannus ymagwedd hyblyg at waith a gallu addasu i bwysau, terfynau amser a llwythi gwaith amrywiol. Rydym am gyflogi unigolyn sy'n awyddus i ddysgu a chyflawni ei botensial drwy ddatblygu i ateb y manylion a nodir yn y meini prawf gwerthuso. Byddwn yn gweithio gyda'r unigolyn i ddeall a bodloni gofynion y rôl, parhau â'i ddatblygiad proffesiynol a thyfu gyda'r tîm a'r sefydliad.

Mae pob gweithiwr yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cynllun strategol y sefydliad.

Os ydych yn awyddus i ymuno â'n tîm; yn flaengar, brwdfrydig, egnïol, a hyblyg yn eich agwedd at waith, edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Mae pob cynnig o gyflogaeth yn amodol ar eirda boddhaol a chyfnod prawf o chwe mis.

Bydd Gwiriad Manwl DBS ac aelodaeth o Cyngor y Gweithlu Addysg yn ofynnol cyn cyflogi (os nad yw'r rhain eisoes yn eu lle); telir y gost gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Er ein bod yn chwilio am geisiadau gan Swyddog Hyfforddi cwbl gymwysedig, rydym hefyd yn agored i ystyried ymgeiswyr ar gyfer y rôl Swyddog Hyfforddi dan Hyfforddiant.

- Bydd rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y rôl dan hyfforddiant dangos:
- Gwybodaeth gadarn a ddealltwriaeth o egwyddorion ac arferion Gwaith Chwarae.
- Profiad cyfredol neu diweddar o weithio mewn lleoliad Gwaith Chwarae.
- Ymrwymiad cryf i ddatblygiad parhaus, gan gynnwys parodrwyd i astudio ar gyfer cymhwyster dysgu ac asesu (wedi'i gefnogi gan y sefydliad).

Bydd y rôl dan hyfforddiant yn cael ei cynnig ar cyflog dechrau is (£30,285), ac yn codi ar ôl cyflawni cymhwyster a diwallu'r cerrig milltir hyfforddiant.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# DISGRIFIAD SWYDD

**Teitl y Swydd**
Swyddog Hyfforddi

**Lleoliad**
I weithio o'n swyddfa yng Nghaerdydd, â chytundeb gweithio ystwyth yn ei le. (50:50)

**Oriau Gwaith**
37 awr yr wythnos (Dydd Llun – Dydd Gwener)

**Yn Atebol I'r**
Swyddog Hyfforddi Arweiniol/AAM Arweiniol

**Cyfradd Dâl**
£32,076 pro rata (£33,366 ar lwyddo i dderbyn cadarnhad mewn swydd, fel arfer wedi 6 mis)

# TASGAU A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

I gefnogi'r gyfundrefn i gyrraedd ei goliau strategol drwy gyflenwi ac asesu hyfforddiant o ansawdd i gefnogi'r Sector Gofal Plant All-Ysgol a'r Gweithlu Gwaith Chwarae.

1. Cyflawni cymhwysterau Gwaith Chwarae, hyfforddiant a gweithdai deinamig
2. Cyflawni gweithdai'n seiliedig ar chwarae a modelu dull gwaith-chwarae cadarnhaol.
3. Ymgymryd ag asesu Dysgwyr Gwaith Chwarae yn y gweithle
4. Cynorthwyo'r cyflenwad o brosiectau hyfforddi yn y gyfundrefn
5. Creu Adnoddau Hyfforddi
6. Cyfrannu at lunio Newyddlenni a'r Bwletin Wythnosol
7. Mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol
8. Ymgymryd cymhwyster Dyfarniad Lefel 3 mewn Darparu Hyfforddiant Gwaith Chwarae Deinamig
9. Datblygu ymhellach eu datblygiad proffesiynol eu hunain er mwyn gwella eu gallu i gyflawni'r rôl fel y bo'n briodol

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# SGILIAU A PHROFIAD CRAIDD

## Hanfodol

- Gwybodaeth / Profiad mewn Gwaith chwarae ac arferion Gwaith Chwarae cyfredol
- Cymhwyster hyfforddiant a phrofiad profedig o hyfforddi oedolion
- Dyfarniad Asesu perthnasol, megis TAQA, D32 & D33, A1 neu Tystysgrif L3 Mewn Asesu Cyflawniad Gyrfäol
- Gwybodaeth a phrofiad o gyflawni cyrsiau Gwaith Chwarae
- Y gallu a phrofiad i gyflwyno sesiynau ar-lein
- Sgiliau cyfathrebu da, gan gynnwys ar lafar ac ysgrifenedig, a'r gallu i weithio gydag amrywiaeth o bobl ar wahanol lefelau proffesiynol a chyd-aelodau o'r tîm.
- Llythrennedd cyfrifiadurol
- Trwydded yrru lawn a mynediad at gerbyd

## Dymunir

- Y gallu i siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Wedi eu haddysgu at lefel gradd, TAR (Lefel 5)
- Profiad o ddefnyddio systemau portfolio ar-lein
- Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion gofal plant a chwarae, a'r rôl Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn yr agenda economaidd

Er ein bod yn chwilio am geisiadau gan Swyddog Hyfforddi cwbl gymwysedig, rydym hefyd yn agored i ystyried ymgeiswyr ar gyfer y rôl Swyddog Hyfforddi dan Hyfforddiant.

- Bydd rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y rôl dan hyfforddiant dangos:
- Gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion Gwaith Chwarae.
- Profiad cyfredol neu diweddar o weithio mewn lleoliad Gwaith Chwarae.
- Ymrwymiad cryf i ddatblygiad parhaus, gan gynnwys parodrwyd i astudio ar gyfer cymhwyster dysgu ac asesu (wedi'i gefnogi gan y sefydliad).

Bydd y rôl dan hyfforddiant yn cael ei cynnig ar cyflog dechrau is (£30,285), ac yn codi ar ôl cyflawni cymhwyster a diwallu'r cerrig milltir hyfforddiant.

# MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

## AMCAN 1.

I gyflawni cymwysterau, hyfforddiant a gweithdai deinamig.

### MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Cefnogi datblygiad cyrsiau hyfforddiant a deunyddiau addas gan gynnwys cynlluniau gwers, ac adolygu a diweddaru cyrsiau hyfforddi presennol.
- Dilyn y cynlluniau a'r adnoddau ar gyfer hyfforddi yn unol â'r cynlluniau safoni a rheoli fersiynau.
- Rhoi adborth ar yr hyfforddiant i gefnogi datblygiad y cyflenwi a'r arferion.
- Cynnal arsylwadau ar gymheiriaid i sicrhau y glynir at bolisi dwyieithog y gyfundrefn ym mhob achos.

## AMCAN 2.

Cyflenwi gweithdai'n seiliedig ar chwarae a modelu agwedd gadarnhaol tuag at Waith Chwarae.

### MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Datblygu cyfleoedd chwarae addas i blant yn unol â phrosiectau penodol.
- Cefnogi adolygu gweithdai a rhoi adborth arnynt.
- Gofalu bod yr adnoddau'n cael eu cynnal a'u dychwelyd i'w mannau storio priodol.

## AMCAN 3.

Ymgymryd ag asesu Dysgwyr Gwaith Chwarae mewn gweithle.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Cwblhau ac adolygu Cynlluniau Dysgu Unigol a phan fydd angen, Anghenion Dysgu Ychwanegol/y Saesneg yn Iaith Ychwanegol/tudalen Llesiant.
- Ymweld â dysgwyr y diploma lawn yn fisol yn eu gweithle i gwblhau asesiadau ac adolygiadau.
- Ymweld â Dysgwyr Cymwysterau Agored a chwblhau asesiadau a mentora.
- Rheoli portffoliau'r dysgwyr yn unol â'n polisi asesu teg.
- Cwblhau'r holl waith papur gofynnol, sy'n rhan o'r broses hyfforddi, yn amserol ac yn gywir.

## AMCAN 4.

Cynorthwyo i gyflenwi prosiectau hyfforddi o fewn y gyfundrefn.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- O dan gyfarwyddyd y tîm arwain hyfforddiant, cyflenwi hyfforddiant i staff ac ymddiriedolwyr Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.
- Cefnogi cyflenwi cynadleddau a digwyddiadau rhwydweithio.

## AMCAN 5.

Creu Adnoddau Hyfforddi.

## MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Mewn ymgynghoriad â'r Aseswr Ansawdd Mewnol Arweiniol a'r Swyddog Hyfforddi Arweiniol, llunio adnoddau i gefnogi ein Rhaglenni Hyfforddi.
- Cyflwyno adnoddau newydd eu llunio i'r Tîm Hyfforddi eu safoni.
- Cynnal rheoli-fersiynau a dilyn y canllawiau brandio.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

## AMCAN 6.

Cyfrannu at lunio Newyddlenni a’r Bwletin Wythnosol.

### MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Ysgrifennu erthyglau ar gyfer newyddlenni cyfundrefnol a hyfforddi.
- Cyfrannu at lunio blogiau ar bynciau llosg neu brofiadau.

## AMCAN 7.

Mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol.

### MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd safoni gyda'r grŵp prosiect.
- Mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol, a chwarae rôl gadarnhaol a chynhyrchiol.

## AMCAN 8.

Gyrru yn ei flaen eu datblygiad proffesiynol eu hunain er mwyn gwella eu gallu i gyflawni’r rôl.

### MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Ymgysylltu â datblygiad proffesiynol parhaus drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys drwy ymarfer Gwaith Chwarae wyneb yn wyneb.
- Adfyfyrio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus a chofnodi ar log DPP.
- Rhannu’r dysgu o’r cyrsiau a fynychwyd.

# SUT I YMGESIO

Mae cynigion cyflogaeth yn amodol ar eirdaon boddhaol, gwiriadau hunaniaeth a gwiriadau DBS (os yn gymwys) ar y lefel briodol.

CWBLHEWCH Y CAIS ELECTRONIG YMA

CWBLHEWCH Y FFURFLEN MONITRO CYFLE CYFARTAL YMA

Gwyddom y gall cyfweliadau fod yn brofiad brawychus. Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, rydym am eich gwneud yn gyfforddus drwy:

- Cynnig y cyfle i siarad ag aelod o'r tîm cyn y cyfweliad i sgwrsio.
- Ymrwymo i ddeall yn llawn unrhyw anghenion ychwanegol a/neu unrhyw ofynion mynediad sydd gennych a rhoi unrhyw ofynion angenrheidiol yn eu lle o fewn amser da.
- Rhannu fformat y cyfweliad a'r hyn a ddisgwylir gennych ymlaen llaw, er mwyn i chi allu paratoi'n dda, a theimlo'n fwy cyfforddus a rheolaethol, a fydd hefyd yn ein helpu i gael y gorau ohonoch.
- Sicrhau panel cyfweld sy'n gynrychioliadolol o'r.

Rydyn ni am i'r profiad fod yn un dymunol y byddwch chi'n myfyrio arno'n gadarnhaol waeth beth fo'r canlyniad. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddarllen amdanoch, i ddod i'ch adnabod ymhellach.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi! P'un a ydych yn llwyddiannus ai peidio ar bob cam o'r rhestr fer, byddwn mewn cysylltiad â'r camau nesaf ac yn hapus i gynnig adborth i chi ar eich cais/cyfweliad.

### Y dyddiadau allweddol:

- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau – 01/12/2025
- Gwahodd ymgeiswyr i gyfweliad erbyn – By 05/12/2025
- Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau - 08/12/2025

I gael cymorth gyda'ch cais neu i drafod y broses recriwtio gallwch gysylltu â'n Uwch Weinyddwr Cyffredinol cyfeillgar Becci.

02920 741000    recruitment@clybiauplantcymru.org



Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

## Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn bodoli i helpu cymunedau yng Nghymru drwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi clybiau gofal plant all-ysgol sydd o ansawdd, yn fforddiadwy ac yn hygyrch.

**Rydym yn gyfundrefn Gymru-eang sy'n helpu i sefydlu, datblygu a chefnogi clybiau gofal plant all-ysgol. Rydym yn helpu clybiau, neu ddarpar glybiau, i wneud ceisiadau a gyllid ac rydym yn hyfforddi a chefnogi staff yn ystod sefydlu clwb ac yna yn ei rediad.**

# POB HWYL GYDA'CH CAIS!

**www.clybiauplantcymru.org**


Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House | Ty'r Bont, Station Road | Ffordd yr Orsaf, Llanishen | Llanisien, Cardiff | Caerdydd, CF14 5UW



Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260 | Company limited by guarantee/Cwmni Cyfyngedig trwy warant: 4296436

Yn gweithio mewn partneriaeth â: Llywodraeth Cymru Welsh Government